

Diweddariad ar yr Adolygiad o Arloesi Digidol

Cyd-destun

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod yr Athro Phil Brown, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, i arwain adolygiad o effeithiau arloesi digidol ar yr economi a dyfodol gwaith yng Nghymru¹. Ers hynny, mae'r Athro Brown wedi bod yn gweithio â Phanel o Arbenigwyr² a alwyd ynghyd i archwilio i rai o'r sialensau a'r cyfleoedd sy'n dod gydag arloesi digidol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae'r papur hwn yn ceisio rhoi diweddariad byr o waith presennol yr adolygiad ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau diweddar. Bydd yr Athro Brown yn dod i'r cyfarfod i gynnig mwy o wybodaeth am yr adolygiad.

Cais am Dystiolaeth a rhagor o waith ymgynghori

Yn dilyn cais yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref, cafodd dyddiad cau'r Cais am Dystiolaeth ei ymestyn hyd at 30 Tachwedd 2018. Rhoddodd hyn fis arall i ymatebwyr ystyried eu hymateb. Er y dyddiad cau estynedig ac ymdrechion hyrwyddo y Gweinidogion, dim ond 27 ymateb a gafwyd i'r Cais am Dystiolaeth. Amlygodd hyn i'r Athro Brown yr angen i'w adolygiad fynd a'r drafodaeth at randdeiliaid ac i greu dulliau mwy soffistigedig a manwl o drafod.

Mewn ymateb, mae cefnogaeth wedi cael ei sefydlu i redeg ochr yn ochr â'r adolygiad i helpu'r Athro Brown gyda'i waith trafod. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys rhyddhau fideo fer ar-lein gyda'r Athro Brown yn amlinellu ei ganfyddiadau interim i'r camera. Bydd y gwaith hwn cael ei gefnogi gan adroddiad diweddar a fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cael ei lunio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein ar ôl iddo gael ei orffen.

Mae'r gwaith hwn yn nodi cam nesaf yr adolygiad wrth i'r Athro Brown geisio ymgynghori yn ehangach ar gyfres o feysydd thematig sy'n deillio o'i ymchwil a'i drafodaethau gwreiddiol, gan gynnwys yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth.

Y camau nesaf a llwybrau gwaith ar gyfer y dyfodol

Mae rhagor o waith i'w wneud i ddeall sut y gellir addasu rhai o ddarganfyddiadau interim yr Athro Brown ar gyfer Cymru a threfnu'r gwaith sydd ei angen er mwyn adeiladu ar gapasiti a gallu'r llywodraeth, partneriaid cyflenwi, busnesau a'r gweithlu er mwyn cael model ar gyfer Cymru 4.0.

¹ Gweler <https://gov.wales/newsroom/businessandconomy/2018/180316-economy-secretary-announces-digital-innovation-review/?skip=1&lang=cy>

² Gweler <https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-arloesi-digidol-ar-gyfer-yr-economi-dyfodol-gwaith-yng-nghymru>

Isod mae crynodeb o'r llwybrau gwaith amrywiol y mae'r Athro Brown yn eu harchwilio'n fwy manwl yng ngham olaf ei adolygiad. Maen nhw'n datblygu trwy'r adeg wrth i ragor o drafodaethau gael eu cynnal â rhanddeiliad. Ar hyn o bryd, gellir eu crynhoi fel hyn:

- uchelgeisiau ac amcanion strategol ar gyfer Cymru 4.0, ee o gloddio glo i gloddio data: cwmpasu sut beth yw cynnig gwerth newydd i Gymru wedi'i gysylltu â lles unigolion a ffyniant wedi'i rannu;
- defnyddio dadansoddi data a Deallusrwydd Artiffisial i hybu trawsnewid economaidd (a gwybodaeth well a fwy dynamig am y farchnad lafur);
- mentrau i ehangu trawsnewid diwydiannol yn gysylltiedig ag ail-gynllunio swyddi gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu modelau cefnogi busnes rhanbarthol a rhaglenni newid ac ail-ddysgu gweithwyr;
- ailfeddwl dysgu gydol oes yng Nghymru a'r gwaith sydd ei angen i symud y system addysg a sgiliau ymlaen o'r hen ddiwydiannau i sgiliau newydd a'r gefnogaeth sydd ei hangen i alluogi'r genhedlaeth nesaf i lywio bywyd-gwaith;
- strategaeth ddigidol genedlaethol ar seilwaith clyfar, gan gynnwys cysylltedd arloesol a phrif ffrydio digidol wrth galon yr economi graidd (yn cysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru);
- Cymru a'r byd: ail-frandio'r genedl fel Cymru 4.0 i ddenu sylw a buddsoddiad, yn gysylltiedig â chronfeydd her – o bosib yn cael eu gweinyddu drwy Fanc Datblygu Cymru – wedi'u hanelu at arloesedd mewn busnes ac ymchwil
- datblygu 'modelau hyblyg ond sicr' i ysgogi a sicrhau bod cymdeithas yn weithgar, yn alluog ac yn cyfrannu'n ddigidol (yn cysylltu â'r Comisiwn Gwaith Teg);
- ysgogi'r sector cyhoeddus i fod yn arloeswyr prif ffrwd mewn dylunio a darparu gwasanaethau (yn cysylltu â'r adroddiad i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy ddefnydd gwell o dechnolegau digidol³); ac,
- adeiladu arweinyddiaeth a chapasiti ar gyfer Cymru 4.0 yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt.

Estyniad i'r amserlenni adrodd

Er mwyn archwilio'r meysydd uchod mewn dyfnder digonol, ac wrth ystyried y problemau o ran cyhoeddi ei ddarganfyddiadau interim, mae'r Athro Brown wedi gofyn i'w amserlen adrodd gael ei hymestyn hyd at fis Mehefin 2019. Mae'r Gweinidogion wedi cytuno i'r estyniad yn barod ac mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn crynhoi'r penderfyniad.

³ Gweler <http://www.leeforllanelli.wales/wp-content/uploads/systemreboot.pdf>